

GORCHMYNION ATAFaelu ENILLION y DRETH GYNGOR

CANLLAWIAU I GYFLOGWYR

Cyflwyniad

1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi paratoi'r nodyn hwn er mwyn helpu cyflogwyr i weinyddu Gorchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor. Gall awdurdodau lleol gyflwyno Gorchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor ar ôl cymeradwyo gorchmyn dyled mewn cysylltiad â dyled y dreth gyngor yn unol â Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 (OS Rhif. 1992/613), fel y'i diwygiwyd. Mae'r nodyn yn amlinellu'r gweithdrefnau cysylltiedig a swyddogaethau'r cyflogwr, y dyledwr a'r awdurdod lleol. Mae rhagor o gyngor manwl ar gael yn Atodiad A ar ffurf cwestiynau ac atebion.
2. Mae Gorchmyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor yn ddogfen gyfreithiol sy'n pennu dyletswyddau penodol y cyflogwr a'r dyledwr. Ymhelaethir ar y dyletswyddau hyn yn y nodyn. Gallai methu â chyflawni'r dyletswyddau hyn arwain at ddirwy.
3. Os nad ydych wedi cael Gorchmyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor o'r blaen, byddwch yn sylwi eu bod yn dilyn egwyddorion bras Gorchmynion Atafaelu Enillion sy'n codi o Ddeddf Atafaelu Enillion 1971, gan y bydd didyniad rheolaidd yn cael ei dynnu o enillion net, fodd bynnag, ceir nifer o wahaniaethau pwysig. Er enghraifft, caiff y didyniad ei gyfrifo gan y cyflogwr yn achos Gorchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor, yn hytrach na'i bennu gan y llys. Ceir amlinelliad yn Atodiad B o'r camau i'w cymryd pan fydd mwy nag un gorchmyn o'r fath wedi'i gyflwyno.

Amlinelliad o'r Weithdrefn

4. Dyma drefn y digwyddiadau sy'n arwain at gyflwyno Gorchmyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor:
 - (a) pan fo awdurdod lleol yn cyflwyno bil y dreth gyngor a nodyn atgoffa ond nad yw'n derbyn taliad, gall wneud cais i Lys yr Ynadon am wŷs yn cyfarwyddo unigolyn i ymddangos o flaen y llys i esbonio pam na thalwyd y dreth gyngor;
 - (b) os profir diffyg talu, mae'r llys yn cyflwyno gorchmyn dyled ar gyfer y dreth gyngor sy'n daladwy, ac am gostau'r awdurdod lleol wrth sicrhau'r gorchmyn dyled. Ar ôl sicrhau gorchmyn dyled, mae gan yr awdurdod lleol sawl dewis, gan gynnwys atafaelu enillion, i adennill y swm a nodir yn y gorchmyn dyled;
 - (c) os yw'r awdurdod yn ystyried bod atafaelu enillion yn gam priodol, bydd yn cyflwyno Gorchmyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor i gyflogwr tybiedig y dyledwr, ac yn anfon copi o'r gorchmyn at y dyledwr. Mae'r gorchmyn yn nodi swm y dreth gyngor sydd heb ei dalu ac yn mynnu bod didyniadau yn cael eu cyfrifo yn unol â'r rheoliadau o enillion net. Mae'r gorchmyn hwn ar ffurf safonol a bennir mewn rheoliadau i sicrhau dull cyson o gyflwyno gwybodaeth. Mae'n rhaid iddo gynnwys y tablau didynnu rhagnodedig a chopi o'r rheoliadau sy'n ymdrin â Gorchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor. Mae copi o'r gorchmyn a'r dogfennau y mae'n ofynnol eu hamgáu yn Atodiad C.

Yr hyn y mae'n rhaid i'r cyflogwr ei wneud

5. Ar ôl derbyn Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor, mae'n rhaid i'r cyflogwr:
- geisio gwneud didyniadau o enillion net y cyflogwr o dan Orchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor cyn gynted ag y bo modd (ceir diffiniad o enillion net yn Atodiad A);
 - cyfrifo'r didyniadau gan ddefnyddio'r tablau yn y rheoliadau;
 - dweud wrth y cyflogwr beth yw cyfanswm y didyniadau a wnaed o dan y gorchymyn, ar yr un pryd ag y rhoddir ei ddatganiad talu fel arfer; a
 - thalu'r didyniadau i'r awdurdod lleol erbyn 18fed diwrnod y mis yn dilyn y mis y gwnaed y didyniad fan bellaf.
6. Gall y cyflogwr ddidynnu £1 yn ychwanegol ar bob didyniad o gyflog ei weithiwr i dalu ei gostau gweinyddol ei hun.

Hysbysiadau

7. Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddweud wrth yr awdurdod lleol am faterion penodol, a gellid dirwyo'r cyflogwr am beidio â gwneud hynny. Pan fo'r cyflogwr yn derbyn gorchymyn mewn cysylltiad ag unigolyn nad yw'n ei gyflogi, dylai ddweud wrth yr awdurdod lleol o fewn 14 diwrnod. Yn yr un modd, dylai ddweud wrth yr awdurdod pan fo dyledwr y mae Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor ar waith ar ei gyfer yn gadael ei gyflogaeth, unwaith eto o fewn 14 diwrnod. Dylai'r cyflogwr hefyd ddweud wrth yr awdurdod lleol perthnasol os yw'n dechrau cyflogi unrhyw un sydd â Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor. Dylid gwneud hyn o fewn 14 diwrnod o ddechrau cyflogaeth y dyledwr, neu o'r dyddiad pryd y daw'r cyflogwr yn ymwybodol bod gorchymyn mewn grym yn erbyn y gweithiwr, pa un bynnag yw'r diweddaraf.

Yr hyn y mae'n rhaid i'r dyledwr ei wneud

8. Mae'n rhaid i ddyledwr ddweud wrth yr awdurdod a wnaeth y Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor os yw'n newid ei gyflogaeth. Wrth roi gwybod am newid o'r fath dylai'r dyledwr, i'r graddau y gall wneud hynny, roi manylion am ei enillion; y didyniadau disgwyledig o'r cyfryw enillion o ran treth incwm, yswiriant gwladol a phensiwn; enw a chyfeiriad y cyflogwr a'i rif cyflogaeth neu rif adnabod. Mae'n rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon o fewn 14 diwrnod o newid cyflogaeth. Gellid cyflwyno dirwy i ddyledwyr os nad ydynt yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol yn y modd hwn.

Yr hyn y mae'n rhaid i'r awdurdod ei wneud

9. Mae'n rhaid i awdurdod ddweud wrth y cyflogwr pan dalwyd y swm cyfan y mae'r Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor yn ymwneud ag ef, gan gynnwys pan wnaed taliad heb fod trwy Orchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor.
10. Gall awdurdod, o'i wirfodd ei hun, neu trwy gais gan y dyledwr neu gyflogwr y dyledwr, wneud gorchymyn yn rhyddhau Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor. Pan gaiff Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor ei ryddhau, dylai'r awdurdod roi gwybod i'r cyflogwr.

Cyngor manylach

11. Mae Atodiad A yn cynnwys cwestiynau ac atebion sy'n ymdrin yn fanylach â thrafod Gorchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor, dylech gysylltu yn gyntaf â'r awdurdod lleol perthnasol. Os oes gennych anawsterau na ellid eu datrys gan yr awdurdod sydd wedi cyflwyno'r gorchymyn, mae rhagor o gyngor ar gael gan Adran Gyllid y Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llawr 4, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3NQ (rhif ffôn: 029 20823615).

GORCHMYNION ATAFaelu ENILLION Y DRETH GYNGOR CWESTIYNAU AC ATEBION

1. BETH YW GORCHYMYN ATAFaelu ENILLION Y DRETH GYNGOR?

Pan na chaiff y dreth gyngor ei thalu, gall yr awdurdod lleol wneud cais i lys ynadon am orchymyn dyled yn erbyn y methdalwr. Os yw llys yn cymeradwyo gorchymyn dyled, mae gan awdurdod sawl dewis i adennill y swm sydd heb ei dalu. Un dewis yw Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor. Bydd y Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor ar ffurf sydd wedi'i phennu yn y rheoliadau (gweler copi yn Atodiad C). Mae'n cynnwys enw'r dyledwr, ei rif ar y gyflogres (os yw'r wybodaeth hon ar gael) a chyfeirnod yr awdurdod lleol. Mae'n cadarnhau bod gan yr unigolyn a enwir ddyled treth gyngor ac yn nodi swm y dreth gyngor sy'n daladwy. Dylid gwneud didyniadau yn unol â'r gorchymyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn y gorchymyn.

2. PA DDYLETSWYDDAU SYDD AR Y CYFLOGWR YN SGIL Y GORCHYMYN HWN?

Mae'r gorchymyn hwn yn ddogfen gyfreithiol ac yn pennu dyletswyddau penodol y cyflogwr, felly mae'n bwysig eich bod yn gwybod yr egwyddorion llywodraethol. Mae manylion am eich dyletswyddau statudol wedi eu nodi ym mharagraff 13 isod.

Os ydych yn cyflogi unigolyn sy'n destun gorchymyn, dylech ddidynnu o'i enillion yn y modd a ddisgrifir isod. Dylai'r didyniadau hyn ddechrau cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn y gorchymyn. Dylid wedyn anfon y swm a ddidynnwyd at yr awdurdod erbyn 18fed diwrnod y mis yn dilyn y mis y gwnaed y didyniad.

Yn ogystal â'r swm sydd i'w ddidynnu a'i dalu i'r awdurdod, cewch hefyd ddidynnu £1 oddi wrth eich gweithiwr fesul trafodiad tuag at eich costau gweinyddu. Dylai eich gweithiwr gael datganiad ysgrifenedig gyda phob didyniad, o'r swm cronnus a ddidynnwyd, gan gynnwys unrhyw £1 a ddidynnwyd mewn cysylltiad â'ch costau gweinyddu. Gellir gwneud hyn fel arfer adeg cyflwyno'r datganiad talu, ond, os nad yw hyn yn gyfleus, gellid ei wneud cyn gynted ag y bo modd ar ôl gwneud y didyniad.

Os yw'r gweithiwr wedi symud i gyflogaeth arall neu os nad yw erioed wedi gweithio i chi, dylech roi gwybod i'r awdurdod perthnasol o fewn 14 diwrnod a bydd eich cyfrifoldeb i weithredu'n unol â'r gorchymyn yn dod i ben.

3. AM FAINT Y MAE'R GORCHYMYN HWN YN PARA?

Dylid parhau â'r didyniadau ar bob diwrnod cyflog hyd nes bod y swm cyfan a nodwyd yn y gorchymyn wedi'i dalu i'r awdurdod; hyn nes i'r unigolyn adael eich cyflogaeth; neu hyd nes y caiff y gorchymyn ei ryddhau gan yr awdurdod. Pan fydd y gweithiwr yn gadael eich cyflogaeth ac y byddwch chi wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol, nid fydd angen i chi wneud dim arall. Bydd angen i'r awdurdod lleol gyflwyno copi o'r gorchymyn i'r cyflogwr newydd a fydd yn nodi'r swm sydd ar ôl i'w ddidynnu.

4. FAINT Y DYLLID EI DDIDYNNU?

Mae'r swm y dylid ei ddidynnu yn dibynnu ar gyfanswm enillion net y gweithiwr. Mae Atodiad C yn cynnwys tablau sy'n nodi'r canran i'w didynnu yn ôl swm yr enillion net ac amllder y cyfnod talu.

5. BETH YW ENILLION NET?

At ddiben y gorchmynion hyn, ystyr enillion net yw enillion ar ôl didynnu treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol cynradd Dosbarth 1, cyfraniadau pensiwn ac unrhyw ddiidyniad y sydd â blaenoriaeth uwch. Nid yw enillion yn cynnwys Credydau Treth yn ôl diffiniad Deddf Credydau Treth 2002. Gweler paragraff 10 os yw gweithiwr yn derbyn tâl yn ystod gwyliau.

6. BETH YW ENILLION?

Diffiniad enillion yw symiau sy'n daladwy ar ffurf:

- tâl neu gyflog (gan gynnwys unrhyw ffioedd, taliadau bonws, comisiwn, taliadau goramser neu daliadau eraill ar ben tâl neu gyflog sy'n daladwy o dan contract gwasanaeth)
- tâl salwch statudol

Nid yw enillion yn cynnwys:

- symiau sy'n daladwy gan adrannau cyhoeddus o Lywodraeth Gogledd Iwerddon neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
- tâl a lwfansau aelodau'r lluoedd arfog;
- budd-daliadau neu lwfansau sy'n daladwy o dan unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol (mae hyn yn cynnwys tâl mamolaeth);
- lwfansau sy'n daladwy o ran anabledd;
- cyflogau sy'n daladwy i forwyr ac eithrio morwr ar gwch pysgota;
- Credyd Treth yn ôl diffiniad Deddf Credyd Treth 2002

7. A YW LWFANSAU HYFFORDDIANT IEUENCTID YN ENILLION?

Nac ydynt.

8. SUT YDW I'N DEFNYDDIO'R TABLAU YN ATODIAD C?

Mae Colofn 1 pob tabl yn rhoi manylion y bandiau cyflog sy'n cyfateb ag enillion net. Mae Colofn 2 yn rhoi canran yr enillion i'w didynnu. Chwiliwch am y band enillion yng ngholofn 1, edrychwch ar golofn 2 i ddod o hyd i'r ganran ac wedyn cyfrifwch y swm i'w ddidynnu.

9. SUT YDW I'N GWYBOD PA DABL I'W DDEFNYDDIO?

Gan fod y mwyafrif o bobl yn cael eu talu ar gyfnodau rheolaidd, dylai hyn fod yn syml fel arfer, ond bydd achosion o daliadau afreolaidd. Gall yr enghreifftiau isod eich helpu i benderfynu pa ddiyniadau y dylid eu gwneud.

Wythnosol

Os caiff yr unigolyn ei dalu'n wythnosol, dylid cyfrifo'r didyniadau yn unol â Thabl A.

Misol

Os caiff yr unigolyn ei dalu'n fisol, dylid cyfrifo'r didyniadau yn unol â Thabl B.

Cyfnodau wythnosol eraill

Os caiff yr unigolyn ei dalu ar gyfnodau o wythnosau cyfan, dylid rhannu'r enillion net â nifer yr wythnosau yn y cyfnod talu. Yna dylid defnyddio Tabl A i gyfrifo'r didyniad wythnosol priodol a dylid lluosu canlyniad hyn â nifer yr wythnosau yn y cyfnod.

Mwy nag un mis

Os caiff yr unigolyn ei dalu ar gyfnodau o fisoedd cyfan dylid rhannu'r enillion net â nifer y misoedd yn y cyfnod talu. Yna dylid defnyddio Tabl B i gyfrifo'r didyniad misol priodol a dylid lluosu canlyniad hyn â nifer y misoedd yn y cyfnod.

Cyfnodau rheolaidd – heb fod yn wythnosau neu'n fisoedd cyfan

Os caiff yr unigolyn ei dalu ar gyfnodau rheolaidd, ond heb fod yn gyfnodau o wythnosau neu fisoedd cyfan, dylid rhannu enillion net â nifer y diwrnodau. Yna dylid defnyddio Tabl C i gyfrifo'r gyfradd ddyddiol briodol a dylid lluosu hyn â nifer y diwrnodau yn y cyfnod.

Dwy gyfres neu fwy o daliadau ar gyfnodau rheolaidd

Os caiff yr unigolyn ei dalu mewn dwy gyfres neu fwy o daliadau ar gyfnodau rheolaidd, dewiswch y gyfres â'r cyfnod byrraf rhwng taliadau a defnyddiwch y tablau fel y disgrifir uchod. Yn ogystal, didynnwch 20% o'r enillion net sy'n daladwy ym mhob cyfres arall. Os caiff yr unigolyn ei dalu mewn dwy gyfres neu fwy ac mae'r cyfnodau i gyd yr un hyd, dewiswch un o'r rhain, gwnewch y didyniadau fel y disgrifir uchod, ac yn ogystal didynnwch 20% o'r enillion net sy'n daladwy ymhob cyfres arall.

Enghraifft

Cyflog net gweithiwr yw £150 yr wythnos a £600 y mis.

Gwneir didyniad o £10.50 o'r cyflog wythnosol a £120 o'r cyflog misol (h.y. 20% o £600).

Cyfnodau afreolaidd

Os caiff yr unigolyn ei dalu ar gyfnodau afreolaidd, dylid rhannu'r enillion net â nifer y diwrnodau ers y taliad diwethaf a dylid defnyddio Tabl C i gyfrifo'r didyniadau dyddiol priodol, a dylid lluosu hyn, yn ei dro, â nifer y diwrnodau yn y cyfnod.

Enghraifft

Cyflog net y gweithiwr:

- (a) £90 (o 1 Ebrill i 9 Ebrill – 9 diwrnod)
- (b) £120 (o 10 Ebrill i 19 Ebrill – 10 diwrnod)
- (c) £176 (o 20 Ebrill i 30 Ebrill – 11 diwrnod)

Byddai'r didyniadau fel a ganlyn:

- (a) $90/9 = £10$. Didyniad dyddiol = $£10 \times 3\%$ h.y. £0.30. Didyniad y cyfnod = $9 \times £0.30 = £2.70$.
- (b) $120/10 = £12$. Didyniad dyddiol = $£12 \times 3\%$ h.y. £0.36. Didyniad y cyfnod = $10 \times £0.36 = £3.60$.
- (c) $176/11 = £16$. Didyniad dyddiol = $£16 \times 5\%$ h.y. £0.80. Didyniad y cyfnod = $11 \times £0.80 = £8.80$.

Cyfnodau rheolaidd ac afreolaidd

Os caiff unigolyn ei dalu enillion am gyfnodau rheolaidd ac afreolaidd ar yr un diwrnod talu, dylid cyfuno'r symiau a'u trin fel enillion sy'n daladwy ar y cyfnod rheolaidd, gan ddefnyddio'r tabl priodol.

Enghraifft

Mae gweithiwr yn cael £250 o gyflog wythnosol net arferol. Yn ogystal, mae'n cael £350 bob 15 diwrnod am dasg wahanol. Byddai'r didyniadau yn cael eu cyfrifo ar gyfer enillion wythnosol (Tabl A) o $£250 + £350 = £600$. Y gyfradd ddidynnu ar gyfer £600 yw 17% o'r £370 cyntaf a 50% o'r gweddill h.y. $£62.90 + £115 = £177.90$.

10. BETH YDW I'N EI DDIDYNNU OS OES BLAENSWM AM GYFLOG GWYLIAU?

Mae'r swm i'w ddidynnu yn gyfanswm o'r:

- (a) swm a fyddai wedi ei ddidynnu ar y diwrnod talu pe na fyddai blaenswm; a

- (b) symiau a fyddai wedi eu didynnu pe bai'r blaenswm wedi ei dalu ar y diwrnod neu'r diwrnodau talu arferol.

Enghraifft

Mae gweithiwr yn cael £800 ar y diwrnod talu. Mae hyn yn cynnwys £300 am wythnos y diwrnod talu ac yn cynnwys goramser o £100; a £500 am 2 wythnos o flaenswm am gyflog gwyliu h.y. dwy wythnos o gyflog safonol o £250 yr wythnos. Y swm i'w ddidynnu yw:

$$(17\% \text{ o } £300 = £51.00) + (12\% \text{ o } £250 \times 2 = £60) = £111.00.$$

11. SUT YDW I'N YMDRIN Â BENTHYCIADAU AT DDIBENION ERAILL?

Nid yw benthyciadau ar gyfer, er enghraifft, prynu tocyn tymor neu helpu i symud tŷ, yn flaensymiau cyflog ac ni ddylid eu cyfrif yn enillion.

Mae sut y caiff ad-daliadau benthyciadau o'r fath eu trafod wrth gyfrifo a didynnu yn dibynnu ar ddyddiad cyflwyno'r Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor:

i gyfrifo didyniad Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor a wnaed cyn 1 Ebrill 1995, dylid lleihau'r enillion net yn ôl swm yr ad-daliad i'r cyflogwr; ac,

ar gyfer Gorchymynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 1995, dylid cyfrifo'r didyniad yn ôl yr enillion net cyn ad-dalu unrhyw fenthyciad.

12. BETH YDW I'N EI WNEUD OS OES GORCHYMYN ATAFaelu ENILLION EISOES MEWN GRYM?

Gweler Atodiad B am fanylion llawn am sut i ymdrin â gorchmynion lluosog. Bydd yr enghreifftiau a ganlyn, fodd bynnag, yn helpu yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd.

(a) Os oes Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor eisoes ar waith, mae'r Gorchymyn yn dal i gael ei gymhwyso. Cânt eu cymhwyso yn nhrefn eu dyddiadau, a'r diweddaraf yn cael ei gymhwyso i weddillion yr enillion. Fodd bynnag, os oes dau neu fwy o Orchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor eisoes yn cael eu talu, ni ellir gweithredu Gorchymyn arall a dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol yn briodol.

(b) Os oes Gorchymyn Atafaelu Enillion Tâl Cymunedol eisoes ar waith, mae Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor yn dal i gael ei gymhwyso. Cânt eu cymhwyso yn nhrefn eu dyddiadau, a'r diweddaraf yn cael ei gymhwyso i weddillion yr enillion. Fodd bynnag, yn wahanol i'r hyn a nodir yn rhan (a) uchod, nodwch y dylai Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor unigol, barhau i fod ar waith er gwaethaf nifer y Gorchmynion Atafaelu Enillion Tâl Cymunedol, neu orchmynion eraill nad ydynt yn ymwneud â'r dreth gyngor, sydd eisoes mewn grym.

- (c) Dylid rhoi unrhyw orchmynion o Ddeddf 1971 nad ydynt yn flaenoriaeth ar waith (yn nhrefn eu dyddiad) ar ôl pob gorchymyn arall.

13. DYLETSWYDDAU STATUDOL CYFLOGWYR

Mae Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor yn ddogfen gyfreithiol sy'n pennu dyletswyddau penodol y cyflogwr a'r dyledwr. Ceir crynodeb o'r dyletswyddau cyfreithiol hyn isod.

Gellid dirwyo cyflogwr os yw'n:

- (a) methu â chydymffurfio â'r gorchymyn ac eithrio pan ellir profi y cymerwyd pob cam rhesymol i gydymffurfio;
- (b) methu â rhoi'r holl hysbysiadau gofynnol sy'n ymwneud â Gorchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor;
- (c) gwneud datganiad, wrth roi hysbysiad, y mae'n gwybod ei fod yn anwir o ran manylyn materol, neu'n gwneud datganiad yn fyrbwyll sy'n anwir o ran manylyn materol.

14. DYLETSWYDDAU STATUDOL DYLEDWYR

Gellid dirwyo dyledwyr os yw'n:

- (a) methu â chyflwyno gwybodaeth, heb reswm digonol;
- (b) gwneud datganiad y mae'n gwybod ei fod yn anwir o ran manylyn materol.

Atodiad B

Blaenoriaethau rhwng Gorchmynion Atafaelu Enillion pan fo pob gorchmyn perthnasol wedi ei wneud ar ôl 31.3.93

		Camau ar gyfer y cyflogwr	Rheoliadau perthnasol:
Gorchmyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor	a Gorchmyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor	gweithredu'r Gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r gorchmyn diweddarach i'r enillion sy'n weddill (ond gweler nodyn (3))	Rheoliad 42(1) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1992/613, fel y'i hamnewidiwyd gan OS 1992/3008 a 1998/295)
	a Gorchmyn Atafaelu Enillion Deddf 1971	gweithredu'r Gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r gorchmyn diweddarach i'r enillion sy'n weddill (ond gweler nodyn (1))	Rheoliad 42(2) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1992/613, fel y'i hamnewidiwyd gan OS 1992/3008)
	a Gorchmyn Didynnu o Enillion Cynnal Plant	gweithredu'r Gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r gorchmyn diweddarach i'r enillion sy'n weddill	Rheoliad 42(2) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1992/613, fel y'i hamnewidiwyd gan OS 1992/3008)
	a Gorchmyn Atafaelu Enillion Tâl Cymunedol	prosesu Gorchmyn Atafaelu Enillion Tâl Cymunedol adeg ei dderbyn, gan ei gymhwyso i'r enillion sy'n weddill	Enillion net yn ôl diffiniad rheoliad 27(1) o Reoliadau Tâl Cymunedol (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1989/438, fel y'i diwygiwyd gan SI 1992/219 and 1993/775)
Gorchmyn Atafaelu Enillion Tâl Cymunedol	a Gorchmyn Atafaelu Enillion Tâl Cymunedol	gweithredu'r Gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r gorchmyn diweddarach i'r enillion sy'n weddill	Rheoliad 37A(2) o Reoliadau Tâl Cymunedol (Gweinyddu a Gorfodi) (fel y'i mewnosodwyd yn OS 1989/438 trwy OS 1993/775)
	a Gorchmyn Atafaelu Enillion Deddf 1971	gweithredu'r Gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r gorchmyn diweddarach i'r enillion sy'n weddill (ond gweler nodyn (2))	Rheoliad 37A(3) o Reoliadau Tâl Cymunedol (Gweinyddu a Gorfodi) (fel y'i mewnosodwyd yn OS 1989/438 trwy OS 1993/775)
	a Gorchmyn Didynnu o Enillion Cynnal Plant	gweithredu'r Gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r gorchmyn diweddarach i'r enillion sy'n weddill	Rheoliad 24 o Reoliadau Cynnal Plant (Casglu a Gorfodi) (OS 1992/1989)
	a Gorchmyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor	prosesu Gorchmyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor adeg ei dderbyn, gan ei gymhwyso i'r enillion sy'n weddill	Enillion net fel y diffiniwyd yn Rheoliad 32 o OS 1992/613, fel y'i diwygiwyd gan OS 1993/773

Nodyn (1): ni chaiff cyflogwr ymdrin â 'gorchmyn nad yw'n flaenoriaeth' tan iddo ymdrin â Gorchmyn neu Orchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor ac unrhyw orchmyn arall o dan Ddeddf Atafaelu Enillion 1971 neu adran 31(2) o Ddeddf Cynnal Plant 1991. Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'gorchmyn nad yw'n flaenoriaeth' yw gorchmyn a wnaed ar 1 Ebrill 1993 neu ar ôl y dyddiad hwnnw o dan Ddeddf 1971 naill ai yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn cysylltiad â thalu dyled arfarniad neu daliadau o dan orchmyn gweinyddu.

Nodyn (2): ni chaiff cyflogwr ymdrin â `gorchymyn nad yw'n flaenoriaeth' hyd nes iddo ymdrin â'r Gorchymyn neu'r Gorchmynion Atafaelu Enillion tâl cymunedol ac unrhyw orchymyn arall o dan Ddeddf Atafaelu Enillion 1971 neu adran 31(2) o Ddeddf Cynnal Plant 1991. Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'gorchymyn nad yw'n flaenoriaeth' yw gorchymyn a wnaed ar 1 Ebrill 1993 neu ar ôl y dyddiad hwnnw a wnaed naill ai yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn cysylltiad â thalu dyled arfarniad neu daliadau o dan orchymyn gweinyddu.

Nodyn (3): ni chaiff cyflogwr weithredu ar Orchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor os oes dau Orchymyn Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor eisoes yn cael eu talu. Dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol yn briodol.

Blaenoriaethau rhwng Gorchmynion Atafaelu Enillion Tâl Cymunedol, Gorchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor a Gorchmynion Atafaelu Enillion Deddf 1971 a wnaed ar 31.3.93 neu cyn y dyddiad hwnnw, a Gorchmynion Atafaelu Enillion eraill

		Camau ar gyfer y cyflogwr	Rheoliadau perthnasol
Gorchymyn tâl cymunedol a wnaed ar neu cyn 31 Mawrth 1993 yn cael ei dalu	Derbyn gorchymyn Deddf 1971	Ymdrin â gorchymyn Deddf 1971 ar sail yr enillion sy'n weddill	Rheoliad 37(2)(b) o Reoliadau Taliadau Cymunedol (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1989/438)
	Derbyn gorchymyn tâl cymunedol arall dyddiedig cyn 31 Mawrth 1993	Mae'n rhaid aros hyd nes i'r gorchymyn tâl cymunedol cyntaf gael ei glirio	Rheoliad 37(1) o Reoliadau Taliadau Cymunedol (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1989/438)
	Derbyn gorchymyn tâl cymunedol arall dyddiedig ar ôl 31 Mawrth 1993	Mae'n rhaid aros hyd nes i'r gorchymyn tâl cymunedol cyntaf gael ei glirio	(Mae'r Rheoliad 37A a fewnosodwyd gan OS 1993/775 yn gymwys dim ond pan fo'r holl orchmynion wedi eu gwneud ar ôl 31 Mawrth 1993)
	Derbyn gorchymyn Deddf Cynnal Plant	Gweithredu'r gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r gorchymyn diweddarach i'r enillion sy'n weddill	Rheoliad 24(2)(b) o Reoliadau Cynnal Plant (Casglu a Gorfodi) (OS 1992/1989)
	Derbyn gorchymyn y dreth gyngor	Prosesu gorchymyn y dreth gyngor adeg ei dderbyn, ar sail yr enillion sy'n weddill	Enillion net fel y'u diffinnir yn rheoliad 32 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1992/613, fel y'i diwygiwyd gan OS 1993/773)
Gorchymyn Deddf 1971 a wnaed cyn 1 Ebrill 1993 yn cael ei dalu	Derbyn gorchymyn tâl cymunedol dyddiedig cyn 31 Mawrth 1993	Mae'n rhaid aros hyd nes bod gorchymyn Deddf 1971 wedi'i glirio	Rheoliad 37(2)(b) o Reoliadau Taliadau Cymunedol (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1989/438)
	Derbyn gorchymyn tâl cymunedol dyddiedig ar ôl 31 Mawrth 1993	Mae'n rhaid aros hyd nes bod gorchymyn Deddf 1971 wedi'i glirio	(Mae'r Rheoliad 37A newydd a fewnosodwyd gan OS 1993/775 yn gymwys dim i orchmynion a wnaed ar ôl 31 Mawrth 1993)
	Derbyn gorchymyn y dreth gyngor	Gweithredu'r gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r gorchymyn diweddarach i'r enillion sy'n weddill (ond gweler nodyn (1))	Rheoliad 42(2) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (OS 1992/613, fel y'i hamnewidiwyd gan OS 1992/3008)

Nodyn (1): ni chaiff cyflogwr ymdrin â 'gorchymyn nad yw'n flaenoriaeth' hyd nes iddo ymdrin â Gorchymyn neu'r Gorchmynion Atafaelu Enillion y Dreth Gyngor ac unrhyw orchymyn arall o dan Ddeddf Atafaelu Enillion 1971 neu adran 31(2) o Ddeddf Cynnal Plant 1991. Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'gorchymyn nad yw'n flaenoriaeth' yw gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf 1971 naill ai yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn cysylltiad â thalu dyled arfarniad neu daliadau o dan orchymyn gweinyddu.

**RHEOLIADAU 32 A 38 HYD 42 O REOLIADAU'R DRETH GYNGOR
(GWEINYDDU A GORFODI) 1992 AC ATODLEN 4 OHONYNT**

Dehongli a chymhwyso Rhan VI

32.-(1) Yn y Rhan hon -

ystyr "gorchymyn atafaelu lwfansau" yw gorchymyn o dan reoliad 44;
ystyr "gorchymyn atafaelu enillion" yw gorchymyn o dan reoliad 37;
ystyr "gorchymyn arwystlo" yw gorchymyn o dan reoliad 50;
ystyr "dyledwr" yw rhywun y cyflwynwyd gorchymyn dyled yn ei erbyn;
ystyr "enillion" yw symiau sy'n daladwy i rywun -

- (a) trwy gyflog neu dâl (gan gynnwys unrhyw ffioedd, taliadau bonws, comisiwn, taliadau goramser neu daliadau eraill sy'n daladwy yn ychwanegol at gyflog neu dâl neu sy'n daladwy o dan gontract gwasanaeth); neu
- (b) trwy dâl salwch statudol,

ond, er y byddai'r canlynol yn cael eu hystyried yn enillion fel arall, ni chânt eu trin felly:

- (i) symiau sy'n daladwy gan un rhyw adran gyhoeddus o Lywodraeth Gogledd Iwerddon neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
- (ii) tâl neu lwfansau sy'n daladwy i'r dyledwr fel aelod o luoedd arfog Ei Mawrhydi;
- (iii) lwfansau neu fudd-daliadau sy'n daladwy o dan y Ddeddf Nawdd Cymdeithasol;
- (iv) lwfansau sy'n daladwy o ran anabledd;
- (v) cyflogau sy'n daladwy i forwyr ac eithrio morwr ar gwch pysgota;
- (vi) Credyd Treth o dan Ddeddf Credyd Treth 2002

ystyr "y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm" yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Didyniadau o Gymhorthdal Incwm) 1993;

ystyr "gorchymyn dyled" yw gorchymyn o dan reoliad 34; ac

ystyr "enillion net" mewn cysylltiad â chyflogaeth yw gweddill yr enillion sy'n daladwy o dan y gyflogaeth ar ôl didyniadau'r cyflogwr ar gyfer -

- (a) treth incwm;
- (b) cyfraniadau Dosbarth 1 cynradd o dan Ran I o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992; a
- (c) symiau i'w didynnu o dan unrhyw ddeddfiad neu yn sgil cais ysgrifenedig gan y dyledwr at ddibenion cynllun pensiwn, yn benodol

unrhyw ddeddfiad, rheolau, gweithred neu offeryn arall sy'n darparu ar gyfer talu blwydd-daliadau neu gyfandaliadau -

(i) i'r personau y mae'r offeryn yn effeithio arnynt ar adeg eu hymddeoliad ar oedran penodedig neu yn sgil dod yn analluog ar oedran cynharach, neu

(ii) i gynrychiolwyr personol neu weddwon, perthnasau neu ddibynyddion personau ar adeg eu marwolaeth neu fel arall,

boed gyda neu heb unrhyw fudd-daliadau ychwanegol neu eraill; a phan fo gorchymyn o dan reoliad 32 (gwneud gorchymyn atafaelu enillion) o Reoliadau Taliadau Cymunedol (Gweinyddu a Gorfodi) 1989 a wnaed cyn gwneud y gorchymyn atafaelu enillion yn dal i fod mewn grym,

(d) unrhyw swm y mae'n ofynnol i'w ddiwynnu yn unol â'r gorchymyn hwnnw.

(2) Yn is-baragraff (v) y diffiniad o "enillion" ym mharagraff (1) uchod, mae gan y termau a ddefnyddir yn Neddf Llongau Masnach 1894 yr un ystyron ag sydd yn y Ddeddf honno.

(3) Mae Rheoliadau 33 i 53 yn gymwys ar gyfer adennill swm sydd wedi dod yn daladwy i awdurdod bilio o dan Ran V ac nad yw wedi ei dalu; ond bydd cais ganddynt sy'n ymwneud â swm y mae gan bersonau atebolrwydd cyd ac unigol ar ei gyfer o dan y Rhan honno yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoliad 54 (atebolrwydd cyd ac unigol).

(4) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at swm sydd wedi dod yn daladwy ac nad yw wedi ei dalu yn cynnwys cyfeiriadau at swm sy'n ffurfio rhan o swm mwy sydd wedi dod yn daladwy a'r rhan arall sydd wedi ei dalu.

(5) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon i'r diwrnod neu'r amser y cyflwynwyd hysbysiad, yn gyfeiriad -

(a) os cyflwynir yr hysbysiad yn y modd a ddisgrifir yn adran 233(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 trwy gael ei adael, neu ei anfon yn y post, at gyfeiriad priodol unigolyn, at y diwrnodau neu'r amser y'i gadawyd neu y'i postiwyd, neu

(b) mewn unrhyw achos arall, at y dyddiad neu'r amser y cyflwynwyd yr hysbysiad.

Didyniadau o dan orchymyn atafaelu enillion

38. -(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), bydd y swm i'w ddiwynnu gan gyflogwr o dan orchymyn atafaelu enillion ar unrhyw ddiwrnod talu fel a ganlyn -

(a) pan gaiff enillion y dyledwr gan y cyflogwr eu talu yn wythnosol, swm sy'n hafal i'r ganran briodol o enillion net a fyddai'n daladwy fel arall ar y diwrnod talu hwnnw; ac at y diben hwn y ganran briodol yw'r ganran neu'r canrannau a nodir yng ngholofn 2 o Dabl A yn Atodlen 4, yn gysylltiedig â'r band yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw y mae'r enillion net yn gynwysedig ynddo;

- (b) pan gaiff enillion y dyledwr gan y cyflogwr eu talu yn fisol, swm sy'n hafal i'r ganran briodol o enillion net a fyddai'n daladwy fel arall ar y diwrnod talu hwnnw; ac at y diben hwn y ganran briodol yw'r ganran neu'r canrannau a nodir yng ngholofn 2 o Dabl B yn Atodlen 4, yn gysylltiedig â'r band yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw y mae'r enillion net yn gynwysedig ynddo;
- (c) pan gaiff enillion y dyledwr gan y cyflogwr eu talu ar gyfnodau rheolaidd o nifer cyfan o wythnosau neu fisoedd, cyfrifir y swm fel a ganlyn -

(i) cyfrifo'r hyn y byddai ei enillion net wythnosol neu fisol trwy rannu'r enillion net sy'n daladwy iddo gan y cyflogwr ar y diwrnod talu â'r nifer cyfan hwnnw (o wythnosau neu fisoedd, yn ôl y galw),

(ii) pennu'r ganran neu'r canrannau a nodir yng ngholofn 2 o Dabl A (os yw'n nifer cyfan o wythnosau) neu Dabl B (os yw'n nifer cyfan o fisoedd) yn Atodlen 4 gyferbyn â'r band yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw y mae'r enillion net tybiannol a gyfrifwyd o dan baragraff (i) yn gynwysedig ynddo; a

(iii) chyfrifo'r swm sy'n hafal i'r ganran (neu'r canrannau) priodol o'r enillion net tybiannol ar gyfer unrhyw un o'r wythnosau neu fisoedd hynny a lluosir swm hwnnw â'r nifer cyfan o wythnosau neu fisoedd, fel y bo'n briodol.

(2) Pan fo paragraff (1) yn berthnasol ac mae'r swm i'w dalu i'r dyledwr ar unrhyw ddiwrnod talu yn cynnwys blaenswm ar gyfer tâl yn y dyfodol, bydd y swm i'w ddidynnu ar y diwrnod talu hwnnw yn gyfanswm o'r swm a fyddai fel arall yn cael ei ddidynnu ohono o dan baragraff (1) a -

- (a) pan fyddai'r blaenswm fel arall wedi ei dalu ar un diwrnod talu, y swm a fyddai wedi ei ddidynnu ar y diwrnod talu hwnnw yn unol â pharagraff (1) os byddai'r blaenswm yn swm yr enillion net ar y diwrnod hwnnw; neu
- (b) pan fyddai'r blaenswm fel arall wedi ei dalu ar fwy nag un diwrnod talu, y symiau a fyddai wedi eu didynnu at bob diwrnod talu perthnasol yn unol â pharagraff (1) os -
- (i) byddai cyfran gyfartal o'r blaenswm wedi ei thalu ar bob un o'r diwrnodau hynny; a
- (ii) byddai enillion net y dyledwr ar bob un o'r dyddiau hynny yn swm cyfartal â'r gyfran honno.

(3) Pan fo'r swm sy'n daladwy i'r dyledwr ar unrhyw ddiwrnod talu yn llai oherwydd blaenswm blaenorol, ystyrir mai enillion net y dyledwr ar y diwrnod hwnnw, at ddibenion paragraff (1), fydd y swm a ddiffinnir yn rheoliad 32(1) ar ôl tynnu swm y didyniad ohono.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), pan fo enillion y dyledwr gan y cyflogwr yn daladwy ar gyfnodau rheolaidd ac eithrio'r cyfnodau y mae paragraff (1) yn gymwys iddynt, cyfrifir y swm i'w ddidynnu ar unrhyw ddiwrnod talu fel a ganlyn -

- (a) cyfrifo beth fyddai ei enillion net dyddiol trwy rannu'r enillion net sy'n daladwy iddo gan y cyflogwr ar y diwrnod talu â nifer y diwrnodau yn y cyfnod,
- (b) pennu'r ganran (neu'r canrannau) a nodir yng ngholofn 2 o Dabl C yn Atodlen 4 gyferbyn â'r band yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw y mae'r enillion net tybiannol a gyfrifwyd o dan is-baragraff (a) yn gynwysiedig ynddo, ac
- (c) cyfrifo'r swm sy'n hafal i'r ganran (neu'r canrannau) priodol o'r enillion net dyddiol tybiannol a lluosir swm hwnnw â nifer y diwrnodau yn y cyfnod.

(5) Pan fo enillion y dyledwr yn daladwy fel y nodir ym mharagraff (4), ac mae'r swm i'w dalu i'r dyledwr ar unrhyw ddiwrnod talu yn cynnwys blaenswm ar gyfer cyflog yn y dyfodol, cyfrifir swm enillion net tybiannol y dyledwr o dan is-baragraff (a) y paragraff hwnnw gan ddilyn y fformiwla a ganlyn-

$$\frac{A + B}{C + D}$$

pan -

A yw swm yr enillion net sy'n daladwy iddo ar y diwrnod talu hwnnw (ac eithrio'r blaenswm);

B yw'r blaenswm;

C yw nifer y diwrnodau yn y cyfnod y mae swm yr enillion net yn daladwy ar eu cyfer; a

D yw nifer y diwrnodau yn y cyfnod y byddai'r blaenswm yn daladwy ar eu cyfer, pe na chytunwyd i'w dalu fel blaenswm.

(6) Mae paragraff (3) yn berthnasol mewn cysylltiad â pharagraff (4) yn yr un modd ag y mae'n berthnasol mewn cysylltiad â pharagraff (1).

(7) Pan fo enillion yn daladwy i ddyledwr gan gyflogwr trwy 2 gyfres neu fwy o daliadau ar gyfnodau rheolaidd -

- (a) os yw rhai o'r cyfnodau, neu bob un ohonynt, o hyd gwahanol-
 - (i) at ddiben cyfrifo'r swm i'w ddidynnu, bydd pa un bynnag o baragraffau (1), (2), (3), (4), (5) a (6) sy'n briodol yn berthnasol i'r gyfres â'r cyfnod byrraf (neu, os oes mwy nag un gyfres â'r cyfnod byrraf, pa un bynnag o'r cyfresi hynny y mae'r cyflogwr yn ei ddewis), ac
 - (ii) o ran yr enillion sy'n daladwy ymhob cyfres arall, bydd y swm i'w ddidynnu yn 20 y cant o'r enillion net, neu, pan fo'r swm i'w dalu

ar unrhyw ddiwrnod talu yn cynnwys blaenswm, 20 y cant o gyfanswm yr enillion net a'r blaenswm;

- (b) os yw pob cyfnod yr un hyd, bydd pa un bynnag o baragraffau (1), (2), (3), (4), (5) a (6) sy'n briodol yn berthnasol i gyfres o ddewis y cyflogwr a bydd is-baragraff (a)(ii) yn berthnasol i bob cyfres arall,

a bydd paragraff (3) yn berthnasol mewn cysylltiad ag is-baragraff (a)(ii) uchod yn yr un modd ag y mae'n berthnasol mewn cysylltiad â pharagraff (1).

(8) Yn ddarostyngedig i baragraffau (9) a (10), pan fo enillion y dyledwr gan y cyflogwr yn daladwy ar gyfnodau afreolaidd, cyfrifir y symiau i'w didynnu ar unrhyw ddiwrnod talu fel a ganlyn -

- (a) cyfrifo beth fyddai ei enillion net dyddiol trwy rannu'r enillion net sy'n daladwy iddo gan y cyflogwr ar y diwrnod talu -
 - (i) â nifer y diwrnodau ers y talwyd yr enillion diwethaf iddo gan y cyflogwr, neu
 - (ii) os mai dyma'r enillion cyntaf i'w talu iddo gan y cyflogwr ar gyfer y gyflogaeth dan sylw, â nifer y diwrnodau ers iddo ddechrau'r gyflogaeth;
- (b) pennu'r ganran (neu'r canrannau) a nodir yng ngholofn 2 o Dabl C yn Atodlen 4 gyferbyn â'r band yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw y mae'r enillion net tybiannol a gyfrifwyd o dan baragraff (a) yn gynwysedig ynddo; a
- (c) chyfrifo'r swm sy'n hafal i'r ganran (neu'r canrannau) priodol o'r enillion net dyddiol a lluosir swm hwnnw â'r un nifer â'r rhannydd at ddibenion y cyfrifiad a nodwyd yn is-baragraff (a).

(9) Pan fo enillion yn daladwy i'r dyledwr gan y cyflogwr ar gyfnodau rheolaidd ac afreolaidd ar yr un diwrnod talu, at ddiben cyfrifo'r swm i'w ddidynnu ar y diwrnod talu, yn unol â'r darpariaethau blaenorol sy'n rhan o'r rheoliad hwn, bydd yr holl enillion yn cael eu cronni a'u trin fel enillion sy'n daladwy ar y cyfnod rheolaidd.

(10) Pan fo enillion yn daladwy i'r dyledwr gan y cyflogwr ar gyfnodau rheolaidd ar un diwrnod talu, ac enillion yn daladwy iddo gan y cyflogwr ar gyfnodau afreolaidd ar ddiwrnod talu arall, bydd y swm i'w ddidynnu ar bob un o'r diwrnod talu pan fo'r enillion yn daladwy ar gyfnodau afreolaidd, yn 20 y cant o'r enillion net sy'n daladwy iddo ar y diwrnod hwnnw.

Gorchmynion atafaelu enillion: pwerau ategol a dyletswyddau cyflogwyr ac eraill a wasanaethir

39.-(1) Caiff cyflogwr sy'n didynnu ac yn talu symiau o dan orchymyn atafaelu enillion, bob tro y mae'n gwneud didyniad o'r fath, hefyd ddidynnu o enillion y dyledwr swm o un bunt tuag at ei gostau gweinyddu.

(2) Bydd cyflogwr sy'n didynnu ac yn talu swm o dan orchymyn atafaelu enillion, yn unol â pharagraff (3), yn rhoi gwybod i'r dyledwr yn ysgrifenedig am -

- (a) gyfanswm y symiau (gan gynnwys symiau a ddiwynnir o dan baragraff (1)) a ddiwynnir o dan y gorchymyn hyd at adeg yr hysbysiad; neu
- (b) gyfanswm y symiau (gan gynnwys symiau a ddiwynnir o dan baragraff (1)) a fydd yn cael eu didynnu ar ôl yr adeg honno.

(3) Mae'n rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (2) ar yr un pryd â'r datganiad talu nesaf y mae'r cyflogwr yn ei roi i'r dyledwr ar ôl gwneud y didyniad, neu os nad yw'r cyflogwr fel arfer yn rhoi datganiadau o'r fath, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r didyniad gael ei wneud.

(4) Bydd rhywun y cyflwynir gorchymyn atafaelu enillion iddo, yn unol â pharagraff (5), yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r awdurdod a gyflwynodd y gorchymyn os nad yw'r dyledwr y mae'r gorchymyn yn ei erbyn yn gweithio iddo neu os yw'r dyledwr wedyn yn gadael y gyflogaeth.

(5) Mae'n rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (4) o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd y copi o'r gorchymyn iddo neu y peidiodd y dyledwr â bod yn gweithio iddo (fel y bo'n briodol).

(6) Tra bydd gorchymyn atafaelu enillion mewn grym, bydd unrhyw un sy'n dod yn gyflogwr i'r dyledwr ac sy'n gwybod bod y gorchymyn mewn grym a chan ba awdurdod y'i cyflwynwyd, yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r awdurdod hwnnw ei fod yn cyflogi'r dyledwr.

(7) Mae'n rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (6) o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y dechreuodd y dyledwr weithio i'r cyflogwr, neu o'r dyddiad y mae'r cyflogwr yn gwybod yn gyntaf bod y gorchymyn mewn grym a'r awdurdod a'i gwnaeth, pa un bynnag yw'r diweddaraf.

Gorchmynion atafaelu enillion: dyletswyddau dyledwyr

40.-(1) Pan fydd gorchymyn atafaelu enillion mewn grym, bydd y dyledwr sy'n destun y gorchymyn yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r awdurdod a'i gwnaeth bob tro y mae'n gadael cyflogaeth neu'n dechrau cyflogaeth neu'n newid swydd, a (phan fydd yn dechrau cyflogaeth neu'n newid swydd) bydd yr hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am:

- (a) ei enillion ac (i'r graddau y gall roi'r wybodaeth honno) ei enillion disgwyledig o'r gyflogaeth dan sylw,
- (b) y didyniadau ac (i'r graddau y gall roi'r wybodaeth honno) y didyniadau disgwyledig o'r enillion hynny -
 - (i) o ran treth incwm;
 - (ii) o ran cyfraniadau Dosbarth 1 cynradd o dan Ran I o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;
 - (iii) at ddibenion megis cynllun pensiwn fel y nodir yn niffiniad "enillion net" yn rheoliad 32(1),
- (c) enw a chyfeiriad y cyflogwr, a
- (ch) rhif cyflogaeth neu adnabod (os oes un).

(2) Mae'n rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (1) o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad pan fo'r dyledwr yn gadael neu'n dechrau (neu'n aildechrau) cyflogaeth (fel y bo'n briodol), neu (os yw'n ddiweddarach) y dyddiad y dywedir wrtho gan yr awdurdod y gwnaed gorchymyn yn ei erbyn.

Gorchmynion atafaelu enillion: pwerau ategol a dyletswyddau awdurdod

41.-(1) Pan dalwyd y swm llawn y mae'r gorchymyn atafaelu enillion yn ymwneud ag ef (boed trwy atafaelu enillion neu fel arall), bydd yr awdurdod a'i gwnaeth yn rhoi gwybod am hyn i unrhyw un sy'n cyflogi'r dyledwr neu sydd wedi cael copi o'r gorchymyn.

(2) Gallai'r awdurdod a wnaeth gorchymyn atafaelu enillion, o'i ddewis ei hun neu ar gais gan y dyledwr neu gyflogwr y dyledwr, wneud gorchymyn sy'n rhyddhau'r gorchymyn atafaelu enillion; ac os yw'n gwneud hyn bydd yn rhoi gwybod i unrhyw un sy'n cyflogi'r dyledwr neu sydd wedi cael copi o'r gorchymyn.

(3) Os yw awdurdod yn cyflwyno copi o orchymyn atafaelu enillion yn unol â rheoliad 37(3), bydd hefyd (oni bai ei fod wedi gwneud eisoes) yn rhoi copi o'r gorchymyn i'r dyledwr.

Blaenoriaeth rhwng gorchmynion

42.-(1) Pan fyddai cyflogwr, oni bai am y paragraff hwn, yn ymrwymedig i wneud didyniadau ar unrhyw ddiwrnod talu o dan fwy nag un gorchymyn, bydd yn -

(a) ymdrin â'r gorchmynion yn ôl y dyddiadau y cawsant eu gwneud, gan neilltuo unrhyw orchymyn diweddarach hyd nes y daethpwyd i ben â'r gorchymyn cynharach; ac

(b) ymdrin ag unrhyw orchymyn diweddarach drwy ystyried gweddill enillion y dyledwr ar ôl unrhyw ddidyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw orchymyn cynharach, yn enillion perthnasol ar gyfer y gorchymyn diweddarach.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fyddai cyflogwr, oni bai am y paragraff hwn, yn ymrwymedig i gydymffurfio ag un neu fwy o orchmynion atafaelu enillion ac un neu fwy gorchymyn didynnu, bydd yn ymdrin â'r gorchmynion yn ôl y dyddiadau y cawsant eu gwneud fel ym mharagraff (1).

(3) Ni fydd cyflogwr yn ymdrin â gorchymyn didynnu a wnaed yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn cysylltiad â thalu dyled arfarniad neu daliadau o dan orchymyn gweinyddu hyd nes iddo ymdrin â'r gorchymyn neu'r gorchmynion atafaelu enillion ac unrhyw orchymyn didynnu arall.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gorchymyn didynnu " yw gorchymyn o dan Ddeddf Atafaelu Enillion 1971 neu adran 31(2) (gorchmynion didynnu o enillion) o Ddeddf Cynnal Plant 1991.

DIDYNIADAU I'W GWNEUD O DAN ORCHYMYN ATAFaelu ENILLION AR GYFER Y
RHAI A GYHOEDDwyD **CYN 1 EBRILL 2022.**

TABL A
DIDYNIADAU O ENILLION WYTHNOSOL

(1) Enillion Net	(2) Cyfradd ddiidynnu %
Heb fod dros £75	0
Dros £75 ond heb fod dros £135	3
Dros £135 ond heb fod dros £185	5
Dros £185 ond heb fod dros £225	7
Dros £225 ond heb fod dros £335	12
Dros £335 ond heb fod dros £505	17
Dros £505	17 o ran y £505 cyntaf a 50 o ran y gweddill

TABL B
DIDYNIADAU O ENILLION MISOL

(1) Enillion Net	(2) Cyfradd ddiidynnu %
Heb fod dros £300	0
Dros £300 ond heb fod dros £550	3
Dros £550 ond heb fod dros £740	5
Dros £740 ond heb fod dros £900	7
Dros £900 ond heb fod dros £1,420	12
Dros £1,420 ond heb fod dros £2,020	17
Dros £2,020	17 o ran y £2,020 cyntaf a 50 o ran y gweddill

TABL C
DIDYNIADAU AR SAIL ENILLION DYDDIOL

(1) Enillion Net	(2) Cyfradd ddiidynnu %
Heb fod dros £11	0
Dros £11 ond heb fod dros £20	3
Dros £20 ond heb fod dros £27	5
Dros £27 ond heb fod dros £33	7
Dros £33 ond heb fod dros £52	12
Dros £52 ond heb fod dros £72	17
Dros £72	17 o ran y £72 cyntaf a 50 o ran y gweddill

DIDYNIADAU I'W GWNEUD O DAN ORCHYMYN ATAFaelu ENILLION AR GYFER Y
RHAI A GYHOEDDwyd **AR ÔL 1 EBRILL 2022.**

TABL A
DIDYNIADAU O ENILLION WYTHNOSOL

(1) Enillion Net	(2) Cyfradd ddiwynnu %
Heb fod dros £105	0
Dros £105 ond heb fod dros £190	3
Dros £190 ond heb fod dros £260	5
Dros £260 ond heb fod dros £320	7
Dros £320 ond heb fod dros £505	12
Dros £505 ond heb fod dros £715	17
Dros £715	17 o ran y £715 cyntaf a 50 o ran y gweddill

TABL B
DIDYNIADAU O ENILLION MISOL

(1) Enillion Net	(2) Cyfradd ddiwynnu %
Heb fod dros £430	0
Dros £430 ond heb fod dros £780	3
Dros £780 ond heb fod dros £1050	5
Dros £1050 ond heb fod dros £1280	7
Dros £1280 ond heb fod dros £2010	12
Dros £2010 ond heb fod dros £2860	17
Dros £2860	17 o ran y £2860 cyntaf a 50 o ran y gweddill

TABL C
DIDYNIADAU AR SAIL ENILLION DYDDIOL

(1) Enillion Net	(2) Cyfradd ddiwynnu %
Heb fod dros £16	0
Dros £16 ond heb fod dros £28	3
Dros £28 ond heb fod dros £38	5
Dros £38 ond heb fod dros £47	7
Dros £47 ond heb fod dros £74	12
Dros £74 ond heb fod dros £102	17
Dros £102	17 o ran y £102 cyntaf a 50 o ran y gweddill